PEMBROKESHIRE LEISURE
HAMDDEN SIR BENFRO

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – FFOTOGRAFFIAETH A FIDEO MEWN CANOLFANNAU HAMDDEN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cwmpasu'r ffordd y bydd Cyngor Sir Penfro (fel Rheolydd Data) yn casglu, yn defnyddio ac yn rhannu eich data personol at ddibenion marchnata ein cyfleusterau, ein dosbarthiadau a'n clybiau hamdden.

**Pam mae angen eich gwybodaeth arnom (diben prosesu)**

Bydd y ffotograffau a'r fideos hyn yn cael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth am gyfleusterau ein canolfannau hamdden yn Sir Benfro, a'u hyrwyddo.

Bydd y wybodaeth a rowch yn cael ei phrosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 2018.

Hefyd, byddwn ni'n gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gallem hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll/troseddau neu archwilio/gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'n Gwasanaeth Archwilio yng Nghyngor Sir Penfro a chydag Archwilydd Cyffredinol Cymru (Hysbysiad Preifatrwydd Archwilio Cymru).

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i drydydd partïon at ddibenion marchnata.

Bydd eich data yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser a byddwn yn casglu'r wybodaeth bersonol angenrheidiol yn unig.

**Pa ddata personol sy'n cael ei gasglu?**

Y categorïau data personol sy'n cael eu casglu yw:

- Ffotograffau
- Fideos
- Enw
- Cyfeiriad
- Manylion cyswllt

**Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch data personol?**

O dan Reoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU), mae'n rhaid bodloni amodau penodol i sicrhau bod eich data personol yn cael ei phrosesu'n gyfreithlon. Mae'r amodau perthnasol hyn isod:

> Erthygl 6 (1)(a) Cydsyniad: rydych chi wedi rhoi cydsyniad clir i ni brosesu eich data personol at ddiben penodol.

**Gyda phwy y byddwn ni'n rhannu'ch gwybodaeth?**

Gall fod angen i ni rannu'ch data personol gydag adrannau mewnol, sefydliadau eraill a thrydydd partïon; bydd hyn yn cynnwys:

- Mae ffotograffau a fideos wedi'u cyhoeddi ar gael i unrhyw un sy'n gallu cael at ein gwefan a'n tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol a neu ddeunyddiau print y mae'r ffotograff yn ymddangos ynddynt.
- Trydydd partïon sy'n prosesu data ar ran y Ganolfan Hamdden, h.y. cwmnïau argraffu a dylunwyr graffig.

- Ffotograffydd/Fideograffydd dan gontract.

Mae'n ddyletswydd ar Gyngor Sir Penfro i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei reoli. Felly, gall y wybodaeth a ddarparoch i ni gael ei defnyddio i atal a chanfod twyll ac at ddibenion archwilio, yn fewnol ac yn allanol.

Bydd y wybodaeth bersonol a gasglom oddi wrthych yn cael ei rhannu gydag asiantaethau atal twyll, y byddant yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i gadarnhau pwy ydych chi. Os caiff twyll ei ganfod, gallai gwasanaethau penodol, cyllid neu waith gael ei wrthod i chi. Mae manylion pellach am sut byddwn ni a'r asiantaethau atal twyll hyn yn defnyddio'ch gwybodaeth, a'ch hawliau diogelu data, i'w gweld trwy fynd i https://www.cifas.org.uk/fpn

**Am ba hyd y byddwn ni'n dal gafael ar eich gwybodaeth?**

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a ddarparwyd i ni yn barhaol. Byddwn yn cael gwared ar eich gwybodaeth yn ddiogel pan na fydd ei hangen mwyach.

**Eich Hawliau**

O dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn, gan gynnwys:

- Yr hawl i **Gywiro** – mae gennych yr hawl i ofyn am gywiro eich gwybodaeth.
- Gall yr hawl i **Gyfyngu** prosesu fod yn berthnasol – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu'ch data personol, ond gallai hyn achosi oedi wrth i ni gyflwyno gwasanaeth i chi, neu ein hatal rhag gwneud. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais, ond gall fod angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **Ddileu** – gallwch ofyn inni ddileu eich data personol, ond gallai hyn achosi oedi wrth i ni gyflwyno neu barhau i gyflwyno gwasanaeth i chi, neu ein hatal rhag gwneud. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais, ond gall fod angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **Gludadwyedd data** – mae gennych yr hawl i ofyn am drosglwyddo'ch gwybodaeth heb rwystr.
- Hawl **Mynediad** – mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. I wneud cais, cysylltwch â:
  Mynediad at Gofnodion
  Cyngor Sir Penfro
  Neuadd y Sir
  Hwlffordd
  SA61 1TP

E-bost: accesstorecords@pembrokeshire.gov.ukFfôn: 01437 764551

**Cwynion neu Ymholiadau**

Mae Cyngor Sir Penfro yn ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion a gawn am hyn o ddifrif. Os bydd pobl o'r farn ein bod ni'n casglu neu'n defnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol, rydym ni'n eu hannog nhw i ddwyn hyn i'n sylw.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnig manylion trwyadl am bob agwedd ar gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol gennym, ond rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol y mae ei angen. Dylech anfon unrhyw geisiadau am hyn i'r cyfeiriad isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Cyngor Sir Penfro

Neuadd y Sir
Hwlffordd
SA61 1TP

E-bost: dataprotection@pembrokeshire.gov.uk
Ffôn: 01437 764551

Os ydych am gwyno am y ffordd y gwnaethom brosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y corff statudol sy'n goruchwylio cyfraith diogelu data:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF
E-bost: wales@ico.org.uk
Rhif ffôn: 0303 123 1113

**Dyma ein Manylion Cyswllt fel Rheolydd Data:**

Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP.

Rhif ffôn: 01437 764551 neu enquiries@pembrokeshire.gov.uk

Mae gwybodaeth ein Swyddog Diogelu Data wedi'i chynnwys uchod yn yr adran Cwynion ac Ymholiadau.

**Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn**
Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.